

## YNNI

### Gweithredoedd polisi mae UNSAIN am eu gweld gan lywodraeth Cymru yn y dyfodol.

Yn ogystal â blaenoriaethau maniffesto cyffredinol UNSAIN Cymru, hoffai ein haelodau yn y sector ynni i lywodraeth nesaf Cymru weithredu yn y meysydd a ganlyn.

#### Effeithlonrwydd Ynni Domestig

Ymrwymiad i wneud pob cartref yng Nghymru'n gymwys ar gyfer Tystysgrif Perfformiad Ynni (EPC) gradd 'C' erbyn 2035. Byddai hyn yn gofyn am asesiad perfformiad ynni ar gyfer pob eiddo domestig, a byddai'n rhoi eglurder ynghylch pa addasiadau y byddai angen eu gwneud i gartrefi er mwyn cyrraedd graddfa C EPC.

Mae'r gwaith hwn yn hanfodol, a byddai iddo effeithiau pellgyrhaeddol. Nid yn unig y byddai'n cynorthwyo'r gofyniad cyfreithiol i gyflawni allyriadau carbon net sero (mae'r defnydd o ynni domestig yn cyfrannu'n fawr at hyn) ond byddai hefyd yn cyfrannu at ddileu tlodi tanwydd a'r heriau iechyd sy'n gysylltiedig ag amodau tai gwael ledled Cymru.

Rhaid gwneud mwy na dim ond canolbwyntio ar y rhai sydd mewn tlodi tanwydd, gan fod angen datrysiad cyflawn, ac mae angen cynnwys pob eiddo domestig gyda datrysiadau ar gyfer cyllido i ddilyn. Bydd cychwyn y gwaith hwn nawr yn rhoi mwy o gyfle i Lywodraeth Cymru gyflawni eu hymrwymiad cyfreithiol i gyflawni allyriadau net sero erbyn 2050.

#### Dod yn arweinydd byd-eang o ran cyflenwi a defnyddio Hydrogen Gwyrdd

Pan gaiff ei ddefnyddio fel prif ffynhonnell tanwydd, gellir defnyddio hydrogen yn yr un modd â nwy naturiol, yn y cartref, mewn diwydiant ac ar gyfer trafndiaeth, ond heb unrhyw allyriadau carbon. Gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, gallai Cymru ddod yn arweinydd byd-eang ym maes cynhyrchu hydrogen gwyrdd, oherwydd caiff ei gynhyrchu trwy electrolyswyr wedi'u cysylltu â ffynonellau ynni adnewyddadwy fel gwynt, yr haul a llanw'r môr. Mae'n creu ynni hawdd ei storio a'i gludo, yn ogystal â mynd i'r afael â gwendid presennol dibyniaeth fyd-eang ar garbon pan fydd ffynonellau ynni adnewyddadwy ysbeidiol yn diffodd.

Gallai Cymru redeg ein holl dyrbinau adnewyddadwy gydag electrolyswyr pŵer i gynhyrchu hydrogen trwy'r amser, a byddai ond angen ein cyflenwad dŵr arnom fel y deunydd crai.

Mae treialon ar y gweill ar gyfer defnyddio hydrogen yn ein cartrefi, oherwydd gellir ei ddefnyddio yn yr un modd â nwy methan. Bydd hyn yn hynod bwysig wrth i Gymru drawsnewid o'n dibyniaeth ar nwy, oherwydd byddai'n golygu mai dim ond y boeler a'r ffwrn fyddai angen eu newid, nid yr holl system wres canolog.

#### Trosglwyddo cyfiawn i Gymru garbon isel

Mae Trosglwyddo Cyfiawn yn ymwneud â thrin y gweithwyr a'r cymunedau y mae newid yn effeithio fwyaf arnynt yn deg, wrth i ni symud i fyd carbon isel. Mae hefyd yn ymwneud â chymysgedd cytbwys o ran ynni carbon isel; buddsoddiad mewn sgiliau a seilwaith, amddiffyn a chreu swyddi a chyflogaeth o ansawdd uchel, heb unrhyw gymuned yn cael ei gadael ar ôl.



Ddeuddeg mlynedd ar ôl Deddf Newid Hinsawdd y DU, nid oes cynllun o hyd sy'n rhoi gweithwyr, sgiliau'r dyfodol a chymunedau yr effeithir arnynt wrth wraidd polisi ynni. Er bod llawer o bolisi ynni heb ei ddatganoli, mae yna lawer iawn o ysgogiadau ar gael i Lywodraeth Cymru i helpu â throsglwyddo'n gyfiawn; er enghraifft ymrwymïadau polisi i ddiogelu swyddi, hyfforddiant a datblygu sgiliau (ac ail-hyfforddi lle bo angen). Byddai hyn yn caniatáu i weithwyr a chymunedau helpu ag arwain y ddadl a helpu i benderfynu ar y datrysiadau, gan sicrhau'r cyflenwad o ynni fforddiadwy (gan gynnwys trwy gaffael cyhoeddus) sy'n gweithio i Gymru gyfan, heb unrhyw gymuned yn cael ei gadael ar ôl.

Pe bai'r amcanion hyn gan aelodau UNSAIN Cymru'n cael eu gwneud yn ddeddfwriaeth, fe fyddai'n:

- Dod â'n huchelgais i wneud Cymru'n Niwtral o ran Carbon erbyn 2050 yn nes.
- Gwella effeithlonrwydd ynni domestig yn sylweddol, yn ogystal â lleihau a dileu tlodi tanwydd a'i effaith ehangach ar iechyd, tlodi ac anweithgarwch economaidd yng Nghymru.
- Helpu i wneud Cymru yn arweinydd byd-eang o ran cynhyrchu hydrogen gwyrdd heb garbon, gan ddefnyddio ein holl dyrbinau dŵr ac ynni adnewyddadwy.
- Helpu i sicrhau, wrth i Gymru symud tuag at ddyfodol di-garbon, nad oes unrhyw weithiwr na chymuned yn cael eu gadael ar ôl.